Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 57/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mawrth 2026

# Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad terfynol

## Crynodeb Gweithredol

### 1. Cefndir a nodau'r ymchwil

Mae'r papur hwn yn adrodd ar ganfyddiadau o ail gam a cham olaf prosiect ymchwil i ddatblygu cwestiynau arolwg, opsiynau ymateb, a chanllawiau sy'n adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd. Nod y cam hwn (y cam 'alffa') oedd dylunio a phrofi'r cwestiynau newydd ar sail canfyddiadau ac argymhellion y cam 'darganfod' cychwynnol.

Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y model cymdeithasol o anabledd yn 2002. Fodd bynnag, mae Deddf Cydraddoldeb (2010) a'r model meddygol o anabledd yn dal i ddylanwadu'n drwm ar gasglu data. Mae'r model cymdeithasol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai rhwystrau mewn cymdeithas sy'n analluogi pobl, yn hytrach na'u hamhariadau. Roedd y newid hwn yn golygu bod angen datblygu cwestiynau arolwg newydd i adlewyrchu'r model cymdeithasol mewn prosesau casglu data a gwneud penderfyniadau yng Nghymru.

Comisiynwyd y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol (NatCen) gan Lywodraeth Cymru yn 2024 i ddatblygu a phrofi set o gwestiynau arolwg sy'n adlewyrchu'r model cymdeithasol o anabledd.

Daeth cam 'darganfod' cychwynnol yr ymchwil i ben ym mis Gorffennaf 2025 drwy gyhoeddi adroddiad interim ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn dilyn adolygiad o'r dulliau casglu data presennol, canfu'r adroddiad nad oedd un set o gwestiynau ar gael i fodloni gofynion y prosiect. Felly, dyma oedd yr argymhellion ar gyfer y cam alffa:

- datblygu ‘cwestiwn amhariadau’ wedi’i ddiweddaru yn seiliedig ar ’safon amhariadau wedi'i chysoni gan Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth (GSS), gan fynd i’r afael â materion fel terminoleg hen ffasiwn ac eglurder ynghylch cyflyrau sy’n amrywio
- creu cwestiwn newydd am rwystrau cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar restr lefel uchel o rwystrau sy’n berthnasol i lunwyr polisïau ac amrywiaeth eang o bobl anabl

Mae’r adroddiad hwn yn cyfuno canfyddiadau cam ‘alffa’ dilynol yr ymchwil, a ddatblygodd ac a fireiniodd y gyfres newydd o gwestiynau ar draws 3 cham gwaith: dylunio cwestiynau, profion gwybyddol, a phrofion maes meintiol.

# 2. Methodoleg a chanfyddiadau cam alffa

## Pecyn gwaith 4 - dylunio cwestiynau

Dilynwyd proses ddylunio ailadroddol i ddrafftio, adolygu a mireinio set o gwestiynau arolwg newydd yn systematig yn unol ag argymhellion yr adroddiad interim. Roedd y dyluniadau cychwynnol yn seiliedig ar ganfyddiadau’r cam darganfod ac yn cael eu mireinio drwy ymgorffori canfyddiadau ymchwil ychwanegol ac adborth gan swyddogion Llywodraeth Cymru a’r Grŵp Llywio ymchwil ehangach.

Roedd angen i’r cwestiynau fod yn gynhwysol, yn briodol i’w defnyddio ar draws gwahanol ddulliau o gasglu data, ac yn addas i oedolion a rhieni sy’n ateb ar ran eu plant. Roeddent i fod ar gael mewn sawl fformat gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain (BSL), a hawdd ei ddeall.

### Cwestiwn amhariadau

Datblygwyd dau fersiwn o’r ‘cwestiwn amhariadau’ cychwynnol o sail safon amhariadau wedi’i chysoni GSS, gyda phob un yn profi gwahanol gysyniadau, geiriad ac opsiynau ymateb.

Cynlluniwyd Fersiwn 1 i gyd-fynd mor agos â phosibl â’r safon amhariadau bresennol o ran strwythur bonyn cwestiynau ac opsiynau ymateb, gan fabwysiadu iaith model cymdeithasol a diwygio rhai categorïau ymateb yn unol â chanfyddiadau’r cam darganfod. Fe’i cynlluniwyd ar gyfer dull hunanweinyddu, a chyfarwyddwyd y cyfranogwyr i wirio’r holl gategorïau ymateb a oedd yn berthnasol iddynt.

Dyluniwyd Fersiwn 2 i brofi newidiadau mwy helaeth i’r safon amhariadau wedi’i chysoni gyfredol. Yn ogystal â newidiadau eang o ran iaith, defnyddiwyd egwyddorion model cymdeithasol i newid y ffordd y cafodd y cysyniad o ‘amhariad’ ei ddiffinio a’i fesur o fewn y cwestiwn. Fe’i cynlluniwyd i gael ei ofyn gan gyfwelydd, ac roedd yn ofynnol i gyfranogwyr ddarparu ateb ‘ie’, ‘na’ neu ‘mae’n well gen i beidio â

dweud’. Rhoddwyd cyfarwyddyd i’r cwestiwn gynnwys ‘unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser’.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau o’r cam darganfod ac ymchwil berthnasol arall, roedd y ddau fersiwn yn cynnwys categorïau ymateb ychwanegol ar gyfer cyflyrau awtoimiwnedd a phoen cronig. Cafodd y categorïau ymateb presennol hefyd eu diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn gywir ac yn gynhwysol. Yn fwyaf nodedig, rhannwyd yr opsiwn ymateb ‘Cymdeithasol neu ymddygiadol’ yn ‘Rhyngweithio neu gyfathrebu cymdeithasol’ a ‘Prosesu synhwyraidd’.

**Cwestiwn rhwystrau**

Datblygwyd dau fersiwn o’r cwestiwn ‘rhwystrau’ newydd hefyd ar gyfer eu profi, yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil y cam darganfod. Er bod y ddau gwestiwn wedi’u cynllunio i gasglu gwybodaeth am y rhwystrau a wynebir gan bobl anabl, roedd pob un yn mesur ac yn diffinio’r cysyniad mewn gwahanol ffyrdd.

Bwriad Fersiwn 1 oedd cofnodi profiad o rwystrau o fewn meysydd bywyd penodol, er enghraifft rhwystrau i ofal iechyd, cyflogaeth neu drafnidiaeth. Fe’i cynlluniwyd hefyd i gael ei ddefnyddio’n unig fel dilyniant i’r cwestiwn am amhariadau, gyda rhwystrau ac amhariadau wedi’u cysylltu’n benodol drwy fôn y cwestiwn.

Bwriad Fersiwn 2 oedd cofnodi’r gwahanol fathau o rwystrau a brofir mewn ystyr ehangach, gan fabwysiadu categorïau model cymdeithasol o rwystrau agweddol, sefydliadol, amgylcheddol a chyfathrebu. Fe’i cynlluniwyd hefyd i weithio fel cwestiwn ar ei ben ei hun, heb gysylltiad penodol rhwng rhwystrau ac amhariadau penodol.

## Pecyn gwaith 5 - profion gwybyddol

Nod y cyfweliadau gwybyddol oedd profi’r ddau fersiwn o’r cwestiynau am amhariadau a rhwystrau gydag oedolion, a rhieni plant anabl (0 i 15 oed). Roedd canfyddiadau’r cam hwn yn sail i ddiwygiadau i’r cwestiynau cyn cam nesaf yr ymchwil.

Cynhaliwyd cyfanswm o 56 o gyfweliadau, lle gofynnwyd i’r cyfranogwyr ymateb i gwestiynau newydd yr arolwg wrth leisio eu prosesau meddwl. Ochr yn ochr â’r dull ‘meddwl yn uchel’ hwn, cyfarwyddwyd cyfwelwyr i ofyn cwestiynau treiddgar i archwilio dealltwriaeth, adalw, prosesau gwneud penderfyniadau cyfranogwyr, ac unrhyw anawsterau a wynebwyd. Roedd y drefn y cyflwynwyd y cwestiynau amhariadau a rhwystrau i gyfranogwyr yn cael ei newid am yn ail i asesu effaith trefn y cwestiynau.

Cynhaliwyd profion ‘prawf cysyniad’ ar raddfa lai ar gyfer y cwestiynau Iaith Arwyddion Prydain a hawdd ei ddeall (Cymraeg a Saesneg). Bwriad y profion rhagarweiniol hyn oedd asesu dichonoldeb ac effeithiolrwydd y cwestiynau a datgelu

problemau posibl o ran dehongli a gweinyddu, cyn ehangu'r profion gyda samplau mwy.

### Canfyddiadau'r cwestiwn amhariadau

Er nad oedd cyfranogwyr yn amlwg yn ffafrio'r naill fersiwn na'r llall o'r cwestiwn amhariadau yn gyffredinol, roedd tystiolaeth o ffafriaeth rhwng yr elfennau unigol a brofwyd ym mhob un. O'r herwydd, ymgorfforwyd nodweddion o'r ddau fersiwn yn y cwestiwn amhariadau terfynol i'w symud ymlaen i'r prawf maes meintiol.

Yng ngeiriad bôn y cwestiwn, roedd y termau 'amhariadau' a 'chyflyrau' a ddefnyddiwyd yn fersiwn 1 wedi cael eu derbyn yn fwy cadarnhaol ar y cyfan. Roedd y termau 'materion' a 'gwahaniaethau' a ddefnyddiwyd yn fersiwn 2 yn cael eu dehongli'n llai cyson, gyda rhai cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn amwys ac o bosibl yn negyddol. Fodd bynnag, roedd y cyfranogwyr yn uniaethu'n gadarnhaol â'r cyfarwyddyd yn fersiwn 2 i 'gynnwys unrhyw beth a allai fynd a dod neu amrywio dros amser', y teimlwyd ei fod yn fwy cynhwysol i'r rhai â chyflyrau cyfnewidiol.

O ran opsiynau ymateb, roedd cyfranogwyr yn ffafrio'r dull iaith seiliedig ar ferfau a brofwyd yn fersiwn 2 y cwestiwn amhariadau, gan nodi bod yr opsiynau yn fwy syml a pherthnasol. Teimlai rhai cyfranogwyr hefyd fod fersiwn 1 yn cynnwys gormod o enghreifftiau ar gyfer pob opsiwn ymateb, a oedd yn eu gwneud yn anoddach eu prosesu. Yn gyffredinol, roedd yr opsiynau ymateb newydd sy'n ymwneud â'r system imiwnedd a 'bod mewn poen neu anghysur' yn cael eu deall a'u derbyn yn gadarnhaol, er y cafwyd argymhellion ar sut i wella eglurder.

Yn Iaith Arwyddion Prydain, roedd y ddau fersiwn o'r cwestiwn yn heriol oherwydd strwythur y cwestiynau pan oeddent yn cael eu cyflwyno mewn iaith weledol. Roedd y categori 'Clyw' yn y safon amhariadau wedi'i chysoni, a oedd yn cyfeirio at 'fyddardod' a 'rhannol fyddar', yn cael ei ystyried yn negyddol ac yn annerbyniol i rai. Roedd yr opsiynau eraill a ddewiswyd ar y cyd â 'Clyw' yn adlewyrchu sut roedd hunaniaethau a diwylliant gwahanol, a bod yn ddefnyddiwr iaith weledol, yn effeithio ar gyfranogwyr, yn hytrach na sut roedd colli clyw yn effeithio arnynt. Roedd yr opsiynau ymateb hir yn y fersiwn wedi'i halinio â'r model cymdeithasol yn peri anhawster wrth ateb.

### Canfyddiadau'r cwestiwn rhwystrau

Er bod yr ymatebwyr yn derbyn ac yn deall y ddau fersiwn o'r cwestiwn rhwystrau yn gyffredinol, cafodd y ddau adborth cymysg a oedd yn tynnu sylw at feysydd i'w datblygu ymhellach cyn y prawf maes meintiol.

Gyda fersiwn 1, roedd cyfranogwyr yn gyffredinol yn teimlo bod y cwestiwn yn rhy eiriog. Er bod cynnwys enghreifftiau'n cael ei ystyried yn ddefnyddiol o ran deall a dehongli'r cwestiwn, argymhellodd cyfranogwyr leihau nifer yr enghreifftiau a ddarperir neu eu symud y tu ôl i fotwm gwybodaeth i gael mynediad ato dim ond pan fo angen. Ar ben hynny, er bod

y term 'rhwystrau' yn cael ei ddeall yn dda a'i ffafrio yn lle termau eraill, roedd yn aml yn cael ei ddehongli fel rhywbeth a oedd yn ymwneud yn bennaf, neu'n gyfan gwbl, â rhwystrau ffisegol. O'i gyfieithu, roedd y term Cymraeg 'amhariad' yn anghyfarwydd i rai.

Gyda fersiwn 2, roedd cyfranogwyr yn dehongli'r cwestiwn yn gyffredinol fel un a oedd yn gofyn am rwystrau a brofwyd ar draws ystod eang o feysydd bywyd, gyda rhai eithriadau. Roedd rhywfaint o ddryswch oherwydd diffyg eglurder ynghylch a oedd y cwestiwn yn gofyn yn benodol am rwystrau sy'n gysylltiedig ag amhariad, absenoldeb cyfnod cyfeirio, a chymhlethdod strwythur rhai brawddegau. Roedd yr adborth yn awgrymu y gallai gweld bôn y cwestiwn helpu dealltwriaeth. Pan ofynnwyd y cwestiwn yn Gymraeg, ystyriwyd ei fod yn rhy ffurfiol mewn rhannau.

Cafwyd derbyniad cadarnhaol i'r fformat hawdd ei ddeall, er bod rhai'n teimlo bod maint y testun a nifer yr opsiynau ymateb yn heriol. Roedd y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r fformat hawdd ei ddeall a'r delweddau, a oedd yn helpu i brosesu'r wybodaeth. Roedd awgrymiadau ar gyfer gwella yn cynnwys delweddau cliriach a phenawdau opsiynau ymateb byrrach i wella eglurder a hygyrchedd.

Yn Iaith Arwyddion Prydain, fel gyda'r cwestiynau am amhariadau, roedd y strwythur yn gwneud y ddau gwestiwn rhwystrau yn anodd eu deall a'u hateb. Roedd dangos bôn y cwestiwn ar wahân i bob math o rwystr yn cynyddu'r baich gwybyddol ac roedd yn cael ei ystyried yn annerbyniol i'r rhai a gymerodd ran. Er ei bod yn ymddangos bod y ddau gwestiwn wedi'u deall yn ôl y bwriad, roedd consensws eu bod yn anodd eu hateb. Roedd yr argymhellion yn cynnwys gwella eglurder a chyd-destun bôn y cwestiynau a sicrhau bod enghreifftiau'n berthnasol i brofiadau pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

## Pecyn gwaith 6 - profion maes meintiol

Nod y prawf maes meintiol oedd casglu amcangyfrifon o gyffredinrwydd pobl anabl sy'n oedolion gan ddefnyddio'r cwestiynau diwygiedig, ac i gymharu ymatebion yn erbyn data o'r safonau wedi'u cysoni presennol. Yn ogystal, byddai adborth ar y cwestiynau newydd yn cael ei gasglu yng nghyd-destun y boblogaeth gyffredinol. Cynhaliwyd y prawf maes meintiol yn nhon Tachwedd 2025 Panel NatCen. Er mwyn sicrhau bod maint sampl oedolion yn ddigonol ar gyfer dadansoddiad ystyrlon, ni chafodd fersiynau rhieni o'r cwestiynau eu cynnwys yn y Panel. Roedd cyfyngiadau swyddogaethol hefyd yn golygu nad oedd yn bosibl cwblhau'r arolwg mewn fformatau BSL na hawdd ei ddeall.

Dewiswyd is-sampl ar hap o 4,383 o achosion gan aelodau gweithredol o'r panel 16 oed a hŷn ac roedd yn cynnwys hwb o 750 aelod o'r panel sy'n byw yng Nghymru. Cafwyd cyfradd ymateb o 57%, a chynhaliwyd cyfanswm o 2,507 o gyfweliadau. Roedd y modiwl yn cynnwys 2 set o gwestiynau ynghyd â chwestiwn ôl-drafodaeth i ymatebwyr:

- Roedd Set 1 yn cynnwys y safonau wedi'u cysoni presennol ar gyfer cyflyrau iechyd a salwch hirdymor, cyfyngiadau ar weithgarwch, ac amhariadau
- Roedd Set 2 yn cynnwys y cwestiwn amhariadau diwygiedig, cwestiwn am rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd, a chwestiwn am y mathau o rwystrau a brofwyd

Gofynnwyd pob cwestiwn i'r holl gyfranogwyr, gyda threfn y setiau'n cael ei hapddethol ar gyfer effeithiau preimio. Cafodd yr opsiynau ymateb ar gyfer rhai cwestiynau eu hapddethol i ddeall effaith opsiynau 'Ddim yn gwybod' a 'Mae'n well gen i beidio ag ateb' ar ymatebion. Cafodd pwysoliadau arolwg eu creu i sicrhau amcangyfrifon cynrychioliadol. Roedd y dadansoddiad yn ddisgrifiadol ac yn cynnwys dau amrywiant, gan ganolbwyntio ar wahaniaethau mewn amcangyfrifon a gynhyrchwyd gan gwestiynau arolwg y model cymdeithasol o'i gymharu â safonau wedi'u cysoni.

Er mwyn gallu cymharu â chyffredinrwydd pobl anabl fel y'u diffinnir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb (bod â chyflwr iechyd neu salwch hirdymor, a gweithgarwch yn cael ei gyfyngu 'llawer' neu 'ychydig'), defnyddiwyd y 2 ddosbarthiad model cymdeithasol canlynol:

- model cymdeithasol 1 (SMD1): ymatebwyr sy'n adrodd am un neu fwy o amhariadau ac sydd wedi profi rhwystrau mewn un neu fwy o opsiynau 'meysydd bywyd'
- model cymdeithasol 2 (SMD2): ymatebwyr sy'n adrodd am un neu fwy o amhariadau ac sydd wedi profi un neu fwy o rwystrau a restrir yn yr opsiynau 'mathau o rwystrau'

### Deall amhariadau

Cafodd dau fersiwn o'r cwestiwn amhariadau eu cynnwys: y cwestiwn amhariadau safonol wedi'i gysoni GSS a'r fersiwn newydd wedi'i alinio â'r model cymdeithasol. Roedd y cwestiwn amhariadau wedi'i gysoni yn nodi bod gan tua 35% o gyfranogwyr un neu fwy o amhariadau, a 'Symudedd' (47%) ac 'Iechyd meddwl' (46%) oedd y mathau mwyaf cyffredin a nodwyd gan bobl anabl.

Nododd y fersiwn model cymdeithasol fod 57% o gyfranogwyr ag un neu fwy o amhariadau. Waeth beth fo diffiniad y model cymdeithasol o anabledd a ddefnyddiwyd, roedd yr amhariadau a adroddwyd yn debyg. Yr amhariadau a adroddwyd amlaf oedd 'Iechyd meddwl' (50% ar gyfer SMD1, a 53% ar gyfer SMD2) a 'Bod mewn poen neu anghysur' (gyda 49% ar gyfer SMD1, a 52% ar gyfer SMD2).

Lle'r oedd cyfatebiaethau swyddogaethol o gategorïau ymateb ar draws dau fersiwn y cwestiwn, roedd cyffredinrwydd yn tueddu i fod ar ei uchaf gyda'r dull a oedd yn cyd-fynd â'r model cymdeithasol. Fersiwn y model cymdeithasol oedd â'r gyfran isaf

o gyfranogwyr a ddewisodd ‘Arall’, sy’n awgrymu ei fod yn cyfleu’n well yr ystod o opsiynau posibl y gallai cyfranogwyr anabl fod eisiau eu darparu.

**Deall rhwystrau**

Profwyd dau gwestiwn gwahanol: un ar rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd ac un ar y mathau o rwystrau a brofwyd (sy’n cyd-fynd â chategorïau’r model cymdeithasol). Yn y ddau gwestiwn, roedd cyfranogwyr ag amhariadau yn adrodd yn gyson am fwy o rwystrau na’r rhai heb amhariadau. Roedd diffyg ymateb i’r ddau gwestiwn yn amrywio yn ôl a oedd ‘Ddim yn gwybod’ a ‘Mae’n well gen i beidio ag ateb’ wedi’u rhestru ochr yn ochr ag opsiynau ymateb eraill neu wedi’u cuddio.

Ar draws pob math o amhariad, y meysydd mwyaf cyffredin o fywyd y nododd cyfranogwyr anabl eu bod yn profi rhwystrau ynddynt oedd ‘Gofal iechyd’ (26%) a ‘Mannau a chyfleusterau cyhoeddus’ (18%). Dywedodd un o bob pump (20%) o’r rhai ag amhariadau eu bod wedi profi rhwystrau mewn 2 neu 3 maes bywyd yn ystod y 12 mis blaenorol. Cyfranogwyr ag amhariadau 'Clyw' oedd y lleiaf tebygol o roi gwybod am rwystrau ym mhob maes bywyd. Roedd dewis yr opsiwn ymateb ‘Arall’ yn isel, sy’n awgrymu bod y categorïau a ddiffiniwyd ymlaen llaw yn cyfleu’n gywir y meysydd bywyd mwyaf cyffredin y mae rhwystrau’n cael eu profi ynddynt.

Ar gyfer y cwestiwn ar y mathau o rwystrau a brofwyd, rhwystrau agweddol oedd y math a adroddwyd amlaf, ar 30%. Rhwystrau sefydliadol oedd yr un nesaf a brofwyd amlaf, ar 23%. Dim ond 1.6% o’r rheini ag amhariad a ddewisodd ‘Arall’, sy’n awgrymu bod yr opsiynau ymateb a ddiffiniwyd ymlaen llaw wedi cofnodi’r prif fathau o rwystrau’n gywir.

**Mesur cyffredinrwydd pobl anabl**

Cynhyrchwyd tri amcangyfrif penodol o gyffredinrwydd bobl anabl: roedd un yn cyd-fynd â diffiniad Deddf Cydraddoldeb (2010) ac roedd dau yn cyd-fynd â’r model cymdeithasol o anabledd. Roedd cyffredinrwydd pobl anabl gan ddefnyddio diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb yn 30.8%, sy’n uwch na’r amcangyfrifon a gyhoeddwyd o ffynonellau data cymaradwy ond yn cyd-fynd â’r duedd o gyffredinrwydd cynyddol.

Gyda’r dull model cymdeithasol cyntaf (SMD1), roedd cyfranogwr yn cael ei ystyried yn anabl os oedd yn dweud bod ganddo un neu fwy o amhariadau gan ddefnyddio’r cwestiwn wedi’i alinio â’r model cymdeithasol, ac yn dweud eu bod wedi wynebu rhwystrau mewn un neu fwy o’r opsiynau ‘meysydd bywyd’. Yn ôl y diffiniad hwn, roedd 27.4% o’r cyfranogwyr yn anabl. Ar gyfer yr ail ddull (SMD2), roedd cyfranogwr yn cael ei ystyried yn anabl os oedd yn dweud bod ganddo un neu fwy o amhariadau a’i fod hefyd yn dweud ei fod wedi profi un neu fwy o’r ‘mathau o rwystrau’ model cymdeithasol a restrwyd. Gan ddefnyddio’r dull hwn, roedd 28.2% o’r cyfranogwyr yn cael eu hystyried yn anabl.

Canfu cyfyngau hyder a phrofion ystadegol wahaniaethau arwyddocaol rhwng SMD1 ac amcangyfrifon y Ddeddf Cydraddoldeb, gydag arwyddocâd o 5%, ond nid 1%. Nid

oedd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng amcangyfrifon SMD2 a'r Ddeddf Cydraddoldeb; na rhwng SMD1 ac SMD2, ar lefel arwyddocâd o 5% neu 1%. Roedd eithrio'r rhai oedd heb ymateb o'r dadansoddiad yn lleihau'r bwlch rhwng y Ddeddf Cydraddoldeb ac amcangyfrifon sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol, ond nid oedd y gostyngiad hwn yn arwyddocaol yn ystadegol.

Roedd dadansoddiad pellach yn archwilio a oedd unigolion yn cael eu dosbarthu'n gyson ar draws gwahanol fesurau. Cafodd cyfanswm o 347 o gyfranogwyr eu dosbarthu yn anabl ym mhob mesur. Dosbarthwyd 247 o gyfranogwyr yn anabl yn ôl diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb ond nid gyda'r naill fodel cymdeithasol na'r llall. Ar y llaw arall, roedd 161 o gyfranogwyr yn cael eu dosbarthu fel pobl anabl yn ôl amcangyfrifon y ddau fodel cymdeithasol ond nid diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at wahaniaethau posibl yn y ffordd y mesurir 'anabledd', yn dibynnu ar y diffiniad a'r cwestiynau arolwg a ddefnyddir.

# 3. Casgliadau ac argymhellion

Darparwyd argymhellion ar gyfer y cwestiwn amhariadau a'r ddau gwestiwn rhwystrau. Mae set gyffredinol ychwanegol o argymhellion yn berthnasol i'r holl gwestiynau.

## Cwestiwn amhariadau y model cymdeithasol

Dylid bwrw ymlaen â'r cwestiwn amhariadau sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol a brofwyd ym mhecyn gwaith 6 a'i ddefnyddio mewn ystod ehangach o arolygon a chyd-destunau casglu data. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu canfyddiadau yn y dyfodol i adeiladu sylfaen dystiolaeth ar ddefnyddio'r cwestiwn, sefydlogrwydd yr amcangyfrifon y mae'n eu cynhyrchu, a hysbysu a oes angen rhagor o waith datblygu a ble y dylid canolbwyntio hynny.

Amlygodd canfyddiadau profion BSL broblemau penodol gyda'r categori ymateb 'Clyw'. Ni wnaeth rhai cyfranogwyr Iaith Arwyddion Prydain ddewis y categori hwn oherwydd ei fod yn cyfeirio at glyw yn hytrach na bod yn fyddar. Argymhellir bod rhagor o waith yn cael ei wneud gydag arwyddwyr BSL byddar i benderfynu a oes modd gwella'r categori hwn a sut.

## Cwestiynau am brofiad o rwystrau

Mae dull sy'n cyd-fynd â model cymdeithasol o gofnodi profiad pobl o rwystrau ar draws bywyd yn newydd yng Nghymru, ac yng nghyd-destun ehangach y DU. Profwyd dau gwestiwn, un yn mesur rhwystrau a brofwyd mewn gwahanol feysydd bywyd, a'r llall yn mesur y gwahanol fathau o rwystrau a brofwyd.

Roedd tystiolaeth yn dangos nad oedd unrhyw broblemau amlwg na mawr yn codi parthed y ddau gwestiwn. O'r herwydd, dylid bwrw ymlaen â'r fersiynau terfynol a'u defnyddio mewn ystod ehangach o arolygon a gwahanol gyd-destunau casglu data.

Gan fod y naill a'r llall yn dychwelyd amcangyfrifon tebyg o gyffredinrwydd pobl anabl (o'u defnyddio ar y cyd â'r cwestiwn amhariadau newydd), dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cymhwyso'r naill a'r llall, yn dibynnu ar bwrpas a natur y cyd-destun ehangach y cânt eu defnyddio ynddo.

Argymhellir cynnal rhagor o brofion i archwilio:

- a yw newid fformat y cwestiynau yn lleihau diffyg ymateb, yn enwedig ar gyfer y cwestiwn ar rwystrau mewn gwahanol feysydd bywyd
- a ddylid cyflwyno 'anghenion nad ydynt yn cael eu cefnogi gan yr Heddlu' i'r cwestiwn ar rwystrau mewn meysydd bywyd
- a yw'r rhwystrau a nodir yn y categori ymateb 'Arall' yn ystod y profion yn cael eu hystyried yn briodol
- gellid adolygu bôn y cwestiwn o'r fersiynau rhieni a'i gwneud yn gliriach bod y cwestiwn yn ymwneud â'u plentyn

## Argymhellion cyffredinol

**Fersiwn rhieni:** Nid oedd yn bosibl profi fersiynau rhieni y cwestiynau'n feintiol. Felly, dylid profi'r cwestiynau hyn ymhellach cyn eu defnyddio. Dylid drafftio a phrofi cyfarwyddyd i gynghori rhieni ynghylch pa blentyn y dylent ateb y cwestiwn ar ei gyfer, os oes ganddynt fwy nag un plentyn sydd ag amhariad. Efallai y bydd angen cwestiynau llwybro ychwanegol i nodi nifer y plant a'u hoedran.

**Fersiwn plant:** Roedd hyn y tu hwnt i gwmpas diwygiedig yr ymchwil. Felly, dylid datblygu cwestiynau a'u profi'n wybyddol gyda phlant anabl fel y gellir casglu data'n uniongyrchol gan blant hŷn, yn hytrach na rhieni.

**Fersiwn BSL:** Roedd y profion yn fach eu cwmpas a dylid cynnal rhagor o brofion ac ymgynghori ag arwyddwyr BSL byddar er mwyn gwella'r gwaith o gasglu data mewn iaith weledol. Yn benodol, effaith strwythurau a fformatau cwestiynau ar y llwyth gwybyddol ar gyfer arwyddwyr BSL, archwilio materion terminoleg, ac effaith y modd y gall hunaniaethau gwahanol, a chyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol ac iaith ymhlith arwyddwyr BSL byddar lywio ymatebion.

**Fersiwn hawdd ei ddeall:** Roedd y profion yn fach eu cwmpas, a dylai'r delweddau a'r geiriad fod yn destun profion gwybyddol pellach. Yn benodol, ei gwneud yn glir na fwriedir i'r enghreifftiau a ddarperir ar gyfer pob opsiwn ymateb fod yn rhestr gynhwysfawr; diwygio'r opsiwn ymateb 'Rhywbeth arall' i'w gwneud yn gliriach bod

ysgrifennu sylw yn ddewisol; ac asesu a yw pob delwedd yn glir ac yn helpu pobl i ddeall y categorïau'n gywir.

**Modd casglu data:** Nid oedd profion maes yn cynnwys casglu data wyneb, yn wyneb y dylid ei brofi ymhellach, ochr yn ochr ag effaith cael nodyn atgoffa ysgrifenedig o'r opsiynau cwestiwn ac ymateb. Dylid cyhoeddi canlyniadau'r profion hyn a darparu canllawiau ar ba gamau, os o gwbl, y dylai cynhyrchwyr data eu cymryd i ddelio ag unrhyw effeithiau modd.

Awduron: Lisa Rutherford, Debbie Collins, Dhru Shah, Aditi Das, Alessandra Radicati, Yasmin Begum, Katherine Rogers, Robyn Swannack, ac Alys Young

National Centre for Social Research

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Rutherford, L., Collins, D., Shah, D., Das. A., Radicati, A., and Begum, Y., Rogers, K., Swannack. R., & Young, A. (2026). Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad terfynol, Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 57/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/model-cymdeithasol-o-anabledd

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Laura Tolland

Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd

Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost y tîm: yrunedtystiolaethcydraddoldeb@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-83745-325-2